TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Virtual Classroom - Change Management Foundation & Practitioner Training with Exams

Yn gryno

Yn gryno

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ffordd hyblyg a rhad ac am ddim o ddysgu. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu o amgylch eu ffordd bresennol o fyw.

Mae'r byd i gyd yn newid, ac mae'r angen am arbenigwyr all weddu i sefydliad, a'i helpu i weithredu newidiadau a gwelliannau yn fwy hanfodol nawr nag erioed.

Mae gwneuthurwyr newid yn cyfathrebu gyda phobl sy'n cael eu heffeithio gan newid, ac

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

mae'r rhaglen hon yn paratoi cyfranogwyr ar gyfer newid mwy manwl a thrawsnewidiol. Gall ymarferwyr yn y maes deimlo'n hyderus wrth weithredu newidiadau sy'n canolbwyntio ar bobl, megis addasu cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rôl benodol yn y gweithle.

Dyma'r cwrs i chi os...

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un dros 19 oed sy'n byw yng Nghymru.

...unrhyw un sydd mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £29,534 y flwyddyn.

...unrhyw un â sgiliau pobl da sy'n dymuno defnyddio'r priodoleddau hyn i adeiladu gyrfa o gwmpas cefnogi sefydliadau i reoli trawsnewidiadau.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Beth Fyddaf yn Ei Wneud...

Trosolwg o Reoli Newid Sylfaenol:

Sut mae'r broses o newid sefydliadol neu drawsnewid yn digwydd.

Y rolau sydd eu hangen i greu timau sydd fwyaf tebygol o gyflawni newid sefydliadol yn llwyddiannus.

Sut mae pobl yn ymateb i newid sefydliadol a sut i'w helpu nhw addasu iddo.

Datblygu strategaethau i ysgogi pobl wrth i sefydliad ymgymryd â newid.

Y mathau gwahanol o brosesau newid e.e. newid wedi'i gynllunio a newid newydd.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Sut i gynnal cysylltiadau â rhanddeiliaid wrth i sefydliad ymgymryd â newid.

Trosolwg o Ymarferydd Rheoli Newid:

Defnyddio fframweithiau prosesau priodol i gynllunio a deall newid sefydliadol.

Ystod o fodelau sefydliadol er mwyn deall, cefnogi a chynnal prosesau newid sefydliadol.

Sut i baratoi'n gywir ar gyfer menter newid sefydliadol - megis adeiladu tîm newid effeithiol a chynnig golwg fanwl sy'n gwella perfformiad y tîm.

Paratoi pobl ar gyfer newid sefydliadol.

Sut i fod yn ysgogol mewn modd sy'n cydymdeimlo â rolau a phersonoliaethau pobl.

Sut i sefydlu fframwaith clir o rolau, sgiliau a gweithgareddau lle all arweinwyr gefnogi a chynnal y broses newid.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gwybodaeth ychwanegol

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chyrsiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 4 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Mae'r cwrs yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu goruchwylio ar-lein, ac mae angen dyfais sydd wedi cysylltu â'r we gyda meicroffon a gwe-gamera.